Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanrug

**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 4AL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanrug

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanrug |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 253 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 181 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'nberthnasol) | 34 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 86.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llanrug o fewn un o ardaloedd mwyaf Cymraeg Cymru ac, o ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr naturiol, cyfoethog Cymraeg. Mae disgyblion sy’n ymuno â’r ysgol yn hwyr yn cael eu trochi yn yr iaith ac yn datblygu i fod yn siaradwyr rhugl yn fuan iawn. Mae naws deuluol yn treiddio drwy’r ysgol, sy’n elfen nodweddiadol gyda phawb yn ymfalchïo yn eu hysgol a’u cymuned. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn, ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch diymhongar.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig o oedran cynnar iawn ac yn dangos dealltwriaeth aeddfed tuag at holl elfennau o fywyd ysgol. Mae eu hymrwymiad a’u dyfalbarhad tuag at tasgau yn dda.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu cwricwlwm cyfartal ar draws dosbarthiadau. Mae elfen gref o gysondeb yn treiddio trwy ddulliau addysgu’r staff, ac maent yn cydgynllunio ac yn gosod disgwyliadau cyrhaeddiad cytûn. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy’n ysbrydoli’r disgyblion i barhau â’u haddysg adref. Mae gan yr athrawon berthynas waith arbennig â’r disgyblion, gan ofalu amdanynt a’u parchu. Maent yn paratoi ardaloedd dysgu priodol sy’n ddeniadol i’r disgyblion ac yn eu hannog i fod yn chwilfrydig. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Mae’r cynorthwywyr yn cefnogi cynnydd y disgyblion yn fedrus iawn ac yn cynnig cynhaliaeth bwrpasol sy’n bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei seilio’n gadarn ar Gymreictod, lles disgyblion a chynnal safonau. Mae’r arweinwyr eraill yn cefnogi’r pennaeth yn dda. Mae aelodau o’r corff llywodraethol yn cyflawni eu rolau’n ddeallus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o weithgareddau’r ysgol ac yn defnyddio eu harbenigeddau’n effeithiol er budd y disgyblion. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu’r ysgol yn eu lle, bod yr adeilad yn cael gofal ac yn sicrhau'r defnydd gorau o’r cyllid. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o flaenoriaethau’r ysgol ac yn datblygu eu gallu i weithio ochr yn ochr â’r staff i werthuso’r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae eu cefnogaeth yn atgyfnerthu’r elfen deuluol sy’n perthyn i’r ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda rhan fwyaf o'u medrau tua'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae eu medrau llafar Cymraeg a'u medrau cymdeithasol uwchlaw'r  hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Yn ystod eu gwersi, mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n arbennig o dda, yn dangos balchder gwirioneddol yn eu gwaith ac yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus.

Mae canran uchel iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn gwbl naturiol wrth ddechrau yn yr ysgol. O fewn amser byr, mae'r ychydig o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn datblygu i fod yn siaradwyr rhugl. Mae geirfa'r ardal i'w chlywed ar leferydd y disgyblion, ac maent yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn siarad Cymraeg yn un o ardaloedd mwyaf Cymraeg Cymru. Maent yn sgwrsio'n gwbl naturiol â'u ffrindiau yn ystod eu gweithgareddau ac wrth chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafaredd yn y ddwy iaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar straeon, gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ac ymateb yn ddeallus i'r testun. Maent yn dechrau defnyddio strategaethau ffoneg yn effeithiol i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir yn eu gweithgareddau chwarae. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn frwdfrydig ac yn gwneud cynnydd yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn amrywio goslef eu llais yn addas ac yn dehongli atalnodi'n gywir. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer yn datblygu'n ddarllenwyr aeddfed yn y ddwy iaith, gyda'r mwyaf hyderus yn darllen ystod o ddeunyddiau'n fedrus. Mae'r disgyblion yn defnyddio strategaethau darllen ehangach er mwyn cywain gwybodaeth a gwerthfawrogi ystod helaeth o destunau'n effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau er mwyn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu cyfres o frawddegau pwrpasol, gan ddefnyddio ystod o eirfa ddiddorol ac yn defnyddio atalnodi elfennol gyda chywirdeb cynyddol. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu  eu dealltwriaeth o ffurfiau ysgrifennu ac yn creu ymson o safbwynt un o aelodau tîm pêl-droed Cymru sy'n paratoi ar gyfer gêm dyngedfennol yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd. Maent yn llwyddo i greu tensiwn, ac yn mynegi emosiwn y chwaraewr yn hynod lwyddiannus. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig gan ddangos gafael sicr ar elfennau iaith ac ystod o ffurfiau ysgrifennu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r dyddiadur personol a ysgrifennwyd o safbwynt y dewin Gwydion. Mae'r disgyblion yn cynnwys elfennau fel cwestiynau rhethregol yn effeithiol iawn, a'u plethu'n deimladwy gyda thafodiaith naturiol Eryri.

Mae llawer o ddisgyblion y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn datblygu dealltwriaeth dda o rif, siâp a data. Maent yn dod yn gyfarwydd â thrafod gwahanol siapau dau

ddimensiwn yn ystod eu gweithgareddau. Yn y meithrin, mae llawer yn dangos dealltwriaeth wrth ddefnyddio siapiau i greu patrymau ailadroddus. Mae'r disgyblion yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus wrth ddefnyddio unedau gwahanol i fesur rhannau'r corff. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn cynnal ymchwiliad manwl i ddarganfod gwahanol fesuriadau'r pwmpenni ac wrth glustnodi'r cnau castan fesul 2, 5 a 10 fel rhan o'u gwaith thema. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, yn eu gwaith gwyddoniaeth, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cynnal ymchwiliad i effaith gwrthiant aer ar falŵn. Maent yn rhagfynegi'n bwrpasol, ac yn dehongli eu canlyniadau'n fedrus.

Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn rheoli robot bach rhaglenadwy yn effeithiol. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn aeddfed er mwyn cofnodi eu gwaith yn annibynnol. Maent yn defnyddio dull rhicbren er mwyn creu graffiau digidol sy'n crynhoi lliw llygaid disgyblion y dosbarth. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrediad o raglenni'n hyderus, ac yn penderfynu pa feddalwedd sydd orau ar gyfer cyflawni gwahanol dasgau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 3 a 4, maent yn creu cyflwyniadau effeithiol am bwysigrwydd gofalu am y byd a lleihau llygredd. Ar frig yr ysgol, maent yn defnyddio bas data'n fedrus i ddarganfod gwybodaeth, er enghraifft wrth ddysgu am y Cymry a deithiodd i Batagonia ar y Mimosa. Maent hefyd yn arddangos medrau codio cadarn wrth greu animeiddiad ar ffurf gêm gyffrous ac yn datblygu eu gwaith trwy wneud y gêm yn fwy heriol ar gyfer chwaraewyr yn dilyn adborth gan athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn dda drwy'r ysgol. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae disgyblion yn marchogaeth gwahanol feiciau dwy a thair olwyn yn hyderus gan arddangos cydbwysedd da. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sy'n hybu eu hiechyd a'u ffitrwydd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ofalu am y corff.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau creadigol o oedran cynnar, er enghraifft wrth ddefnyddio techneg argraffu syml i greu dail ar goeden foel yn y blynyddoedd cynnar ac yna efelychu gwaith William Morris, a chreu darluniau cywrain o adeiladu yn Mhatagonia wrth ddatblygu drwy'r ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ethos cyfeillgar a chartrefol yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, yn groesawgar ac yn mwynhau rhannu eu profiadau ag ymwelwyr yn eu hiaith Gymraeg naturiol gyfoethog. Maent yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac yn parchu eu cyfraniadau wrth sgwrsio'n aeddfed a byrlymus â'i gilydd. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud ei bod yn hawdd siarad â'r athrawon gan eu bod yn gwrando ar eu hanghenion. Maent yn teimlo bod pawb yn cael eu trin yr un fath, ni waeth beth fo'u rhyw neu gefndir. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn rhagorol mewn gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amser chwarae. Mae gweledigaeth yr ysgol, sef 'Bydd yn barchus, bydd yn gyfrifol, bydd y gorau gelli di fod,' wedi ei gwreiddio'n llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos caredigrwydd a gofal at ei gilydd. Maent yn cefnogi eu cyfoedion yn effeithiol ac yn barod iawn i'w helpu a'u cynnwys yng ngweithgareddau dyddiol yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn canmol ei gilydd am eu hymdrechion mewn gwers addysg gorfforol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus sy'n ymwybodol iawn o beth yw bod yn ffrind da. Mae'r disgyblion yn dangos empathi didwyll at eraill ac yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft trwy drefnu casglu nwyddau i helpu pobl yn Ewrop drwy gynllun bocsys esgidiau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos hyder a gwytnwch yn y modd maent yn dyfalbarhau â'u gwaith. Maent yn herio'u hunain yn llwyddiannus drwy ddethol gweithgareddau sydd wedi eu graddoli o ran lefel yr her. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn hyderus i gymryd risg a symud o un lefel her i un arall wrth werthuso eu cynnydd eu hunain. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth adeiladol sy'n cynnig arweiniad iddynt ar sut i symud y dysgu ymlaen. Er enghraifft, mewn gwers gymnasteg, mae disgyblion yn rhannu arfer dda, yn gwerthuso cynnydd ac yn addasu eu symudiadau er mwyn gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni gweithgareddau. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd bositif at eu gwaith ac yn dangos diddordeb cynyddol. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth fedrus o'u tasgau ac maent yn dangos dyfalbarhad wrth eu cwblhau hyd eithaf eu gallu. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig fel unigolion ac yn awyddus i gydweithio fel grŵp mewn ystod o brofiadau dysgu.

Mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chadw'n ddiogel ar-lein ynghyd â'r materion a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn trafod effaith ymarfer corff ar eu hiechyd yn wybodus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn datblygu eu medrau arwain yn briodol drwy wahanol gynghorau. Maent yn dylanwadu'n briodol ar ddatblygiadau o fewn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn trefnu siop ffrwythau, clwb gwyddbwyll ac mae'r Criw Clên yn helpu gofalu am ddisgyblion iau amser chwarae ynghyd â threfnu gemau ar eu cyfer.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chyfoethog. Mae'r athrawon yn rhoi ystyriaeth effeithiol i syniadau disgyblion wrth iddynt gynllunio themâu ac yn cyfeirio'n rheolaidd atynt wrth gyflwyno gweithgareddau. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am eu cynefin, ac am hanes a thraddodiadau'r ardal. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld ag amgueddfa lechi Llanberis er mwyn dysgu am hanes a diwylliant y chwareli. O ganlyniad, mae disgyblion yn arddangos balchder gwirioneddol yn eu pentref.

Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau amrediad o brofiadau difyr ar gyfer disgyblion sy'n caniatáu iddynt ddatblygu eu medrau o oedran cynnar. Maent yn darparu ystod addas o adnoddau sy'n

sbarduno’r disgyblion ieuengaf i ddysgu trwy chwarae, gan gefnogi a hyrwyddo’r dysgu yn effeithiol. Mae’r ardaloedd dysgu, tu fewn a thu allan i’r adeilad, yn cael eu defnyddio’n briodol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol ar gyfer disgyblion. Mewn ychydig o weithgareddau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn tueddu i gyfyngu cyfleoedd disgyblion i fynegi eu hunain yn estynedig.

Mae gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer ymateb i ofynion y Cwricwlwm i Gymru yn datblygu’n gadarn. Fel rhan o’u prosesau hunanasesu, mae arweinwyr ac athrawon yn cyflwyno newidiadau mewn modd cytûn a phwyllog, gan dreialu a gwerthuso er mwyn sicrhau cynnal cynnydd a diddordeb disgyblion.

Mae’r timoedd dysgu yn creu cynlluniau gwaith hyblyg sy’n rhoi ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn systematig. Mae’r athrawon yn canolbwyntio’n briodol ar addysgu medrau penodol, gan adeiladu hyder disgyblion i gymhwyso’u medrau mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae’r staff yn dechrau darparu cyfleoedd i’r disgyblion hŷn ddewis y modd mwyaf effeithiol i ddatblygu eu syniadau a chyflwyno eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn canolbwyntio’n briodol ar ddatblygu annibyniaeth ymysg disgyblion. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol sy’n annog disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth o oedran cynnar, gan sicrhau mynediad at wahanol offer a gweithgareddau sy’n eu symbylu’n llwyddiannus. Yn nosbarthiadau hŷn yr ysgol, mae athrawon yn dechrau sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio’n effeithiol ar wahanol dasgau annibynnol. Enghraifft o hyn yw’r modd mae disgyblion yn cydweithio er mwyn datblygu perfformiad dramatig wedi ei seilio ar oes Fictoria ym Mlwyddyn 3 a 4. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol o fewn yr ysgol ac yn yr ardaloedd allanol wedi eu datblygu’n llawn hyd yma.

Ar draws yr ysgol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn darparu adborth llafar cyson ac adeiladol iddynt, ac yn eu hannog i wneud eu gorau. Maent yn adnabod eu disgyblion yn arbennig o drylwyr, ac yn deall y modd gorau i’w herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn gwirio eu dealltwriaeth, ac yn eu hannog i rannu yr hyn maent yn ei ddysgu. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae staff yn taro cydbwysedd priodol rhwng cyfnodau o drafod fel dosbarth, gyda chyfleoedd i ddisgyblion drafod gyda phartner. Yn nosbarthiadau hŷn yr ysgol, mae staff yn adeiladu ar y gwaith hwn yn grefftus gan annog disgyblion i rannu barn neu gynnig syniadau eu hunain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy’n hyrwyddo ymddygiad da a chwrteisi ardderchog gan bob disgybl. Mae’r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd, ynghyd â lles emosiynol disgyblion, yn allweddol i’w gwaith. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn gan drin pob disgybl yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, mae disgyblion yn barod iawn i ymgysylltu â’u dysgu ac yn gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm. Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae’r ystod amrywiol o gyfleoedd cyfoethog yn fodd pwrpasol o hyrwyddo dealltwriaeth a

datblygiad disgyblion yn yr agweddau hyn. Mae’r elfen o barch yn sylfaen gadarn i bopeth.

Mae’r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant, a sut maent yn uniaethu â’r gymuned leol a’r byd ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dyfnhau’r ymdeimlad o berthyn trwy ymweld â lleoliadau cyfagos fel ysgol goedwig yn Llyn Padarn. Mae hyn yn dwysáu’r balchder sydd gan ddisgyblion yn y ffaith eu bod yn ‘dod o’r pentref mwyaf Cymraeg yn y byd’.

Mae’r holl staff yn ymrwymo’n ddiwyd i sicrhau bod gwerthoedd, ynghyd â lles emosiynol disgyblion, yn allweddol i’w gwaith. Caiff hyn ei adlewyrchu o fewn agweddau cadarnhaol disgyblion at fywyd yr ysgol. Mae’r ysgol yn darparu holiadur lles yn flynyddol i’r disgyblion hŷn, gyda’r canfyddiadau’n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn a sut i addasu’r ddarpariaeth er mwyn bodloni gofynion lles disgyblion. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd sy’n annog disgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgarwch chwaraeon a hamdden, er enghraifft drwy dimau a thwrnameintiau chwaraeon fel nofio i blant o Flwyddyn 2 i 6 yn ystod y flwyddyn a threfnu a chynnal ras redeg Llanrug bob mis Mehefin i’r gymuned leol ac yn ehangach. Mae’r ysgol hefyd yn trefnu pythefnos iechyd, lles ac eco yn flynyddol, gan wahodd arbenigwyr ac asiantaethau allanol i gynnal gweithgareddau a sesiynau hyfforddi. Yn ystod yr wythnos honno, caiff disgyblion fwynhau profiadau fel ioga, dawnsio, beicio, a rhaglenni ffitrwydd fel Ffit Cymru a Rhedwyr Eryri sydd yn ychwanegu at allu’r ysgol i feithrin unigolion iach a hyderus.

Mae gan athrawon brosesau trylwyr ar waith sy’n cael effaith gadarn ar gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cofrestr glir yn dynodi anghenion disgyblion a’r asiantaethau sy’n gweithio gyda’r ysgol, disgyblion a’u teuluoedd. Mae ganddynt amserlen gynhwysfawr ar gyfer asesiadau ac ymyraethau sy’n nodi cyfrifoldeb staff yn glir. Mae staff yn tracio cynnydd disgyblion o’u mannau cychwyn. Maent yn cydweithio’n agos â rhieni, gyda’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Enghraifft dda o’r cydweithio buddiol yw’r noson agored i athrawon fodelu ymyraethau fel bod rhieni’n gallu atgyfnerthu’r gefnogaeth adref. Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth bwrpasol o raglenni cymorth sy’n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chefnogi eu lles yn fwriadus. Mae staff yn darparu rhaglenni cymorth effeithiol i ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol, sy’n eu cynnal i deimlo’n gysurus yn yr ysgol, yn hybu eu presenoldeb yn dda ac eu hannog i fwynhau eu dysgu. Mae hanes dda gan yr ysgol o gefnogi disgyblion a'u teuluoedd drwy amgylchiadau anodd gan ddefnyddio rhaglenni penodol gwerthfawr.

Mae cymorthyddion yn cadw cofnodion manwl, ac mae ganddynt adnabyddiaeth dda iawn o’r gwahanol strategaethau a’u heffaith ar ddatblygiad disgyblion. Mae staff yn trafod gofynion datblygiad proffesiynol ac yn trefnu hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pob disgybl yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal ymhob agwedd o’r ddarpariaeth. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sydd ag ADY, i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at yr ysgol a’r gymuned ehangach. Mae pawb yn cael eu trin yn deg ac mae’r ysgol yn sicrhau cynhwysiant i bawb. Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau eu gwaith ymchwil yn fwriadus i fodloni eu blaenoriaethu. Yn ddiweddar, maent wedi trefnu hyfforddiant

ysgol gyfan i wella dealltwriaeth staff o effaith trawma ar ymddygiad disgyblion, a sut i'w cefnogi. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro ac olrhain presenoldeb disgyblion yn drylwyr.

Mae'r staff yn cadw cofnodion manwl o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni'n brydlon i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu. O dan arweiniad deallus y llywodraethwyr, mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gynhwysfawr ac yn hollol gadarn ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ymdeimlad o gydweithio cadarn ymysg holl randdeiliaid yr ysgol. Mae dathlu Cymreictod a chynnal safonau uchel o ran y Gymraeg a lles disgyblion yn ganolog i holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, staff a disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar gydag ymdeimlad cryf o fod yn rhan o un teulu mawr. Mae hyn yn treiddio trwy bob elfen o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sydd wedi ei seilio ar sicrhau ymrwymiad llwyr at les disgyblion. O ganlyniad, mae ymgrwymiad staff tuag at ddiwallu anghenion bob disgybl yn dda iawn. Mae ganddynt ofal ac adnabyddiaeth dda iawn o les pob plentyn ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r corff llywodraethol yn gryf iawn. Mae eu dealltwriaeth o ddulliau a systemau rheoli'r ysgol yn arbennig o dda. Maent yn llwyddo i herio a chynnig arweiniad mewn modd deallus a chefnogol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac maent yn ymwybodol iawn o flaenoriaethau, yn ogystal â'r hyn sy'n cael ei wneud i fodloni'r blaenoriaethau hynny. Mae cyfuniad eang o gryfderau gwerthfawr gan aelodau'r corff sy'n eu galluogi i gynnig cefnogaeth sy'n seiliedig ar brofiadau a gwybodaeth amhrisiadwy. Maent yn cydweithio'n ddidwyll er lles yr ysgol ac yn defnyddio eu harbenigeddau i herio a chynorthwyo yn feistrolgar.

Mae'r pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethol wedi cydweithio'n dda dros y blynyddoedd i reoli cyllid yr ysgol. Maent yn cynllunio gwariant yn synhwyrol er budd disgyblion i brynu adnoddau, cynnal nifer buddiol o staff a gwneud addasiadau angenrheidiol i'r adeilad. Gwneir defnydd da o arian grant datblygu disgyblion i ddarparu sesiynau hybu lles disgyblion. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar hyder ac ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae'r corff llywodraethol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol ac yn bodloni'r gofynion statudol parthed prydau ysgol.

Mae gan arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, adnabyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod o drefniadau hunanwerthuso sy'n cynnwys craffu ar lyfrau, canfod barn disgyblion ac arsylwi ar y dysgu a'r addysgu, trwy deithiau dysgu ac arsylwadau gwersi. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i adnabod cryfderau a

meysydd i'w gwella. Mae'r broses yn cynnwys y staff addysgu, a gwybodaeth a gesglir gan ddisgyblion a rhieni.

Mae gan yr ysgol hanes hir o sicrhau a chynnal gwelliannau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion o ran eu medrau sylfaenol a'u lles. Wrth bennu blaenoriaethau, mae arweinwyr yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos effeithiol i hyrwyddo, galluogi a chefnogi dysgu proffesiynol staff addysgu a staff cynorthwyol. Mae effaith yr hyfforddiant i'w gweld yn amlwg yn y ddarpariaeth ac yn natblygiad y disgyblion. Mae cyswllt amlwg rhwng yr hyfforddiant a blaenoriaethau'r ysgol.

Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae ysgolion lleol yr ardal wedi cydweithio i rannu a datblygu eu harferion proffesiynol. Mae cynrychiolwyr o'r chwech ysgol gynradd wedi gweithio gyda athrawon Ysgol Uwchradd Brynrefail i ddatblygu gwefan i gefnogi athrawon wrth iddynt gynllunio ar gyfer bodloni disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysoni'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws ardal leol ac yn anelu at hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd. Mae'r gwaith hwn yn esiampl dda o gydweithrediad effeithiol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar sicrhau cysondeb ym mhrofiadau dysgu a lles disgyblion ar draws ysgolion o fewn yr ardal.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   25/01/2024